
PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD LLUN, 3 MEHEFIN 2019

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

Hefyd yn Bresennol: Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Elfed Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2019 – 2020

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2019 – 2020

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sion Jones

Croesawyd y Cynghorydd Gareth Jones fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Gwnaed cais gan y Cynghorydd Eryl Jones Williams i drafod a chadarnhau aelodaeth panel ar gyfer ceisiadau trwyddedu cerbydau tu allan i bolisi. Nododd y Swyddog Trwyddedu bod y Polisi Tacsï Unedol yn cael ei adolygu, ond yn y cyfamser bod ceisiadau wythnosol yn cael ei gwneud i'r panel gan nad yw'r swyddogion gyda'r awdurdod i wneud penderfyniad. Amlygwyd bod y panel yn cynnwys tri aelod - fel arfer y Cadeirydd, Is-gadeirydd, cyn gadeiryddion neu'r aelod mwyaf profiadol.

PENDERFYNWYD enwebu'r Cynghorwyr Elfed Williams, Annwen Hughes a Peter Read fel aelodau i'r panel.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11eg o Ebrill 2019 fel rhai cywir.

Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor i enwebu aelodau ar gyfer cylch gorchwyl i ystyried cynnwys Polisi Trwyddedu Tacsî Unedig (drafft) amlygodd y Swyddog Trwyddedu y byddai cyfarfod cychwynnol o'r cylch gorchwyl yn cael ei drefnu ymhen 6 wythnos.

7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 16.04.2019, 12.04.19 a 20.03.19

Mynegodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams ei fod yn dymuno camu i lawr fel un o gadeiryddion yr Is Bwyllgorau a diolchodd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Diolchodd y Cynghorydd Peter Read i aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth tra yn Gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.20 y.b. a daeth i ben am 10.30 y.b.

CADEIRYDD